

# PAPUR YR YMGYNGHORIAD CWMPASU AR ARFAU TANIO – CRYNODEB GWEITHREDOL

## CYFLWYNIAD

- 1.1 Crynodeb yw hwn o'n papur ymgynghoriad cwmpasu ar gyfraith arfau tanio. Yn y cyflwyniad hwn, mae trosolwg ar y papur ymgynghoriad cwmpasu ac eglurhad o gwmpas y prosiect. Mae'r crynodeb hwn ar gyfer darllenwyr sydd heb wybodaeth gyfreithiol arbenigol.

## Y prosiect

- 1.2 Pan ymgynghorwyd ar gynnwys 12<sup>fed</sup> Raglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith, roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu bod y gyfraith sy'n rheoli'r defnydd o arfau tanio a'u caffael yn broblemus iawn a bod angen ei diwygio. Cafwyd yr awgrym hwn gan yr heddlu a chan asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ogystal â sefydliadau sy'n cynrychioli'r rhai sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig.

## Y cyd-destun

- 1.3 Mae'r gyfraith sy'n rheoleiddio'r defnydd o arfau tanio a'u caffael i'w chael yn bennaf yn Neddf Arfau Tanio 1968. Fodd bynnag, mae darpariaethau pellach i'w cael mewn 33 o Ddeddfau Seneddol ar ben hynny. Felly, er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r gyfraith ar arfau tanio, rhaid rhoi sylw i 34 o Ddeddfau Seneddol i gyd. Yn ogystal â'r rhain, mae'r gyfraith i'w chael mewn nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth. Nid Deddfau Seneddol yw'r rhain, ond darpariaethau sydd wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â phwerau a roddwyd drwy statud.
- 1.4 Cafwyd llawer iawn o feirniadu ar y gyfraith bresennol, yn bennaf oherwydd:
  - (1) mae diffyg cydlyniant rhwng y 34 o wahanol ddarpariaethau;
  - (2) bod y rheini sydd â bwriad troseddol yn camfanteisio ar y manau gwan;
  - (3) ei bod yn anodd dod o hyd i'r gyfraith am ei bod ar wasgar rhwng nifer o statudau;
  - (4) bod termau allweddol yn y ddeddfwriaeth heb gael eu diffinio; a
  - (5) bod y gyfraith mor gymhleth fel bod y rheini sy'n delio â hi bob dydd yn ei chael yn anodd deall rhai agweddau arni.
- 1.5 Rydym yn credu y gall ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol gael ei thanseilio pan fydd diffynyddion yn mynd â'u traed yn rhydd am nad yw'r statudau sydd i fod i droseddoli eu hymddygiad yn addas i'w diben yn yr oes fodern. Mae'n cael ei thanseilio ymhellach pan fydd y rheini sy'n gwneud eu gorau glas i gydymffurfio â'r gyfraith yn troseddu'n anfwriadol am fod y cyfreithiau'n rhy gymhleth ac yn anodd hyd yn oed i'r arbenigwyr eu deall yn iawn.

- 1.6 Er mwyn cywiro'r diffygion hyn yn y gyfraith ac felly lleihau'r canlyniadau niweidiol hyn, mae Comisiwn y Gyfraith yn gofyn am farn yr ymgynghoreion am nifer o opsiynau i ddatrys y problemau mwyaf difrifol y mae rhanddeiliaid wedi'u dwyn i'n sylw.

### **Pwrpas y Papur**

- 1.7 Mae dau nod i'r Papur Ymgynghoriad Cwmpasu. Mae penodau 2 i 6 yn y papur yn edrych ar y problemau hynny sydd ym marn nifer o randdeiliaid gwahanol yn achosi anhawster neilltuol ac yn tanseilio diogelwch cyhoeddus i wahanol raddau. Yn y penodau hyn, rydym yn cynnig rhai atebion syth i'r problemau difrifol hyn. Mae penodau 7 ac 8 yn ystyried a oes angen diwygiad mwy sylfaenol yn y gyfraith. Dylid gweithredu ar yr atebion syth yr ydym yn eu cynnig ym mhenodau 2-6 ar y cyfle cyntaf, ond ar ôl hynny dylid cynnal adolygiad mwy sylfaenol o'r gyfraith.

- 1.8 Ar ôl cynnal y cyfarfodydd cyntaf â rhanddeiliaid, roedd cytundeb cyffredinol bod y materion canlynol ynghylch y gyfraith yn achosi anawsterau neilltuol wrth ymarfer:

- (1) y methiant i ddiffinio 'lethal' (angheuol);
- (2) y methiant i ddiffinio 'component part' (darn cydrannol);
- (3) y methiant i ddiffinio 'antique' (hynafol);
- (4) y methiant i osod rhwymedigaeth gyfreithiol i gael ardystiad bod arfau tanio wedi'u dadactifadu at safon gymeradwy; a
- (5) methiant y gyfraith i gadw'n wastad â datblygiadau technolegol o ran a yw arf tanio ffug yn hawdd ei droi ('readily convertible') yn arf tanio byw.

### **ANGEUOLDEB**

- 1.9 Y diffiniad o arf tanio yn adran 57(1) o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yw 'lethal barreled weapon'. Felly mae angeuoldeb yn ystyriaeth hanfodol wrth gael gwybod a yw rhywbeth yn arf tanio neu beidio.<sup>1</sup> Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth yn pennu beth y mae angheuol yn ei olygu na sut y dylid penderfynu ar angeuoldeb yn y cyd-destun hwn. Gadawyd i'r llysoedd ddehongli'r gair ac maent wedi dangos amharodrwydd mawr i bennu'n sicr sut y dylid penderfynu ar angeuoldeb.

### **Ymagwedd y barnwyr**

- 1.10 Yn achos *Read v Donovan*<sup>2</sup> datganodd yr Arglwydd Brif Ustus mai'r cwestiwn i'w ofyn wrth benderfynu a oedd rhywbeth yn angheuol yw a oedd yr arf dan sylw'n gallu achosi niwed ('capable of inflicting harm'). Mae hwn yn drothwy isel iawn.

<sup>1</sup> Yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Arfau Tanio 1968, rhaid dal arfau tanio ar dystysgrif arf tanio. Os yw'r arf tanio ar y rhestr o arfau gwaharddedig yn adran 5 o Ddeddf Arfau Tanio 1968, rhaid cael awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn y gellir ei feddiannu'n gyfreithlon.

<sup>2</sup> [1947] KB 326, [1947] 1 All ER 37.

- 1.11 Yn achos *Moore v Gooderham*<sup>3</sup> a gafwyd ar ôl hynny, datganodd yr Arglwydd Parker CJ mai'r hyn sy'n bwysig yw a all yr arf achosi anaf y gellid marw o ganlyniad iddo. Yn yr achos hwnnw, roedd yr arf dan sylw'n gallu tanio gronyn a allai dreiddio i'r llygad. Roedd hyn yn ddigon i'r arf fod yn angheuol ac felly'n arf tanio i ddibenion y gyfraith.
- 1.12 Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y ddau achos hyn. Yn achos *Moore v Gooderham*, er mwyn penderfynu a oedd arf yn angheuol, y cwestiwn a ofynnwyd oedd a allai achosi anaf y *gellid marw o ganlyniad iddo*. Yn achos *Read v Donovan*, yr unig gwestiwn oedd a oedd yr arf dan sylw'n gallu achosi niwed.
- 1.13 Penderfynwyd ar y ddau achos yn y paragraff uchod cyn gwneud Deddf Arfau Tanio 1968. Yn fwy diweddar, yn achos *Thorpe* roedd y llys wedi derbyn bod angen gofyn, er mwyn penderfynu a yw arf yn angheuol, a yw'n gallu achosi anaf y gellid marw o ganlyniad iddo.<sup>4</sup> Yn achos *Castle* derbyniodd y Llys Adrannol nad oedd arf aer a oedd ag egni cinetig wrth danio o 0.5 troedfedd y pwys (0.68 joule) yn angheuol ac felly nad oedd yn arf tanio.<sup>5</sup>
- 1.14 Mae'r achosion hyn yn dangos, er bod y llysoedd wedi edrych ar yr hyn y mae 'angheuol' yn ei olygu yng nghyd-destun Deddf Arfau Tanio 1968, fod ansicrwydd mawr o hyd.

### **Y seiliau gwyddonol**

- 1.15 Un o'r meini prawf y mae gwyddonwyr fforensig yn eu cymhwyso wrth benderfynu a yw arf yn angheuol yw'r egni cinetig wrth ei danio. Mae'r mesuriad hwn yn dangos y pŵer cyffredinol sydd gan deflyn wrth iddo adael baril yr arf tanio ac, o ganlyniad, y gallu sydd gan yr arf i achosi anaf. Mae egni cinetig wrth danio'n cael ei fynegi ar ffurf uned fesur o'r enw joule.

### **Problemau a achoswyd drwy fethu â phennu trothwy angeuoldeb**

- 1.16 Mae rhanddeiliaid yn awgrymu bod y methiant i bennu trothwy manwl ar gyfer angeuoldeb yn achosi anawsterau ymarferol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn amlwg a yw arf yn angheuol ac felly'n arf tanio. Bydd anawsterau'n codi mewn dau senario, fodd bynnag. Yn gyntaf, mewn cysylltiad ag arfau aer isel eu pŵer<sup>6</sup> ac, yn ail, mewn perthynas ag arfau ffug sydd wedi'u trosi'n wael.
- 1.17 Mewn perthynas ag arf aer isel ei bŵer, gall fod yn aneglur a yw'n angheuol ac felly a yw'n dod o dan ddarpariaethau Deddf Arfau Tanio 1968. Er enghraifft, mae adran 16 yn ei wneud yn drosedd meddu ar arf tanio gyda'r bwriad o achosi anaf. Mae anhawster yn codi wrth benderfynu a yw'n bosibl cyflawni'r trosedd hwn os yw unigolyn yn meddu ar arf aer isel ei bŵer. Y rheswm am hyn yw y gall fod yn aneglur a yw'n angheuol ('lethal') ac felly'n arf tanio i ddibenion y ddeddfwriaeth

<sup>3</sup> [1960] 1 WLR 1308, [1960] 3 All ER 575.

<sup>4</sup> [1987] 1 WLR 1308.

<sup>5</sup> (1998) CO/3791/97.

<sup>6</sup> Nid yw'r term 'air weapon' wedi'i ddiffinio. Mae arf aer yn rhyddhau teflyn drwy ddefnyddio nwy cywasgedig neu sbring nwy. Mae'n gyfreithlon meddu ar y rhain heb dystysgrif arf tanio, ar yr amod bod eu hegni cinetig wrth danio o dan drothwy penodol.

gan y gallai fod mor isel ei bŵer fel y gellid cael anghytuno ynghylch ei allu i achosi anaf.

- 1.18 Mewn cysylltiad ag arfau tanio ffug sydd wedi'u trosi'n wael, mae'n bosibl y bydd unigolyn wedi ceisio troi arf tanio ffug yn arf tanio byw. Efallai na fydd wedi bod yn gwbl lwyddiannus wrth wneud hyn ac, er bod yr arf bellach yn gallu rhyddhau teflyn, mae'n bosibl mai ychydig o rym fydd ganddo wrth wneud hynny. Unwaith eto, y cwestiwn yw a yw'r arf yn angheuol ac felly'n arf tanio. Os ydyw, byddai unigolyn sy'n meddu'n anghyfreithlon<sup>7</sup> arno'n euog o drosedd difrifol iawn a allai alw am ddedfryd leiaf orfodol o bum mlynedd mewn carchar.<sup>8</sup>
- 1.19 Heb gael tystiolaeth arbenigol ddrud a mynd i'r llys, ni ellir gwybod a yw eitemau o'r fath yn arfau tanio yng ngolwg y gyfraith. Mae hyn yn cael effaith ar yr arfau tanio trwyddedig a roddir i'r gymuned honno a hefyd yn creu cymhlethdod i Wasanaeth Erllyn y Goron wrth iddo wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo ac yn ei gwneud yn fwy anodd i'r heddlu gynnal eu hymchwiliadau. Y rheswm am hyn yw ei bod yn bosibl na fydd y naill grŵp neu'r llall yn gallu dweud a yw rhywbeth yn dod o dan y ddeddfwriaeth.

### **Atebion posibl**

- 1.20 Mae nifer o ffyrdd o gywiro methiant y ddeddfwriaeth i bennu sut y mae angeuoldeb i gael ei benderfynu.

#### ***(1) Tynnu'r gair 'lethal' o'r diffiniad o arf tanio***

- 1.21 Un ateb radical fyddai dileu'r cyfeiriad at angeuoldeb yn gyfan gwbl. Dyma'r ateb a fabwysiadwyd yn Ne Cymru Newydd, er enghraifft. Yr anhawster sy'n codi yma, fodd bynnag, yw os nad yw arf tanio'n cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at angeuoldeb, yna gallai teganau gael eu hystyried yn anfwriadol yn arfau tanio o dan y gyfraith. Byddai hyn yn annymunol am resymau amlwg.
- 1.22 Ffordd debyg o weithredu fyddai dileu'r cyfeiriad at angeuoldeb a rhoi cyfeiriad at egni cinetig wrth danio yn ei le. Er enghraifft, mae Deddf Arfau Aer a Thrwyddedu (Yr Alban) 2015 yn darparu nad yw 'air weapon' yn cynnwys un nad yw'n gallu rhyddhau teflyn ag egni cinetig o fwy nag un joule o'i fesur wrth drwyn yr arf.
- 1.23 Gan fod y diffiniad o 'firearm' heb ei newid ers degawdau, rydym wedi dod i'r farn y byddai disodli'r cysyniad o "angeuoldeb" yn y Ddeddf yn rhy radical yng nghydestun yr ymarfer cwmpasu hwn. Mae'n rhywbeth y gellid ei ystyried wrth ailddrafftio os bydd y gyfraith yn cael ei chodeiddio yn y dyfodol, fel yr ydym yn awgrymu isod.
- 1.24 Un ateb tymor byr a fyddai yr un mor effeithiol, ond yn llai taclus rhaid cyfaddef, fyddai pennu trothwy y byddai arf tanio'n cael ei ystyried yn angheuol os oedd yn ei groesi.

<sup>7</sup> Dyma fyddai'r sefyllfa os nad oedd ganddo dystysgrif arf tanio.

<sup>8</sup> Mae troseddau penodol yn Neddf Arfau Tanio 1968 yn dwyn dedfrydau lleiaf gorfodol o 5 mlynedd mewn carchar.

**(2) Pennu trothwy wedi'i fynegi yn nhermau egni wrth danio**

- 1.25 Yn ei Unfed Adroddiad Blynyddol ar Ddeg, ceisiodd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio ddangos beth yw'r anaf realistig lleiaf a allai arwain at farwolaeth o ganlyniad i danio ergyd at ran hyglwyf o'r corff. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid gosod y trothwy ar gyfer angeuoldeb ar 1 joule. Cymeradwywyd y terfyn hwn am ei fod yn ymarferol, o ran y gallu i'w fesur yn hawdd, a hefyd am y byddai anaf angheuol yn annhebygol iawn o gael ei achosi ar y terfyn hwnnw neu'n is.<sup>9</sup>
- 1.26 Mae Gwasanaeth Gwyddoniaeth Fforensig Gogledd Iwerddon hefyd wedi'i ystyried yn briodol diffinio "lethal" drwy gyfeirio at egni wrth danio, yn ogystal â'r Swyddfa Gartref yn ei *Guide*.
- 1.27 Gan fod y sefydliadau awdurdodol hyn wedi ymchwilio'n helaeth i'r mater hwn, rydym yn cynnig am y tro fod y dull hwn yn cael ei fabwysiadu.
- 1.28 Gyda golwg ar yr egni wrth danio y dylid ei bennu, roedd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio wedi cymeradwyo 1 joule. Fodd bynnag, mae sefydliadau eraill wedi cymeradwyo trothwyon gwahanol. Yn 2011, er enghraifft, roedd ACPO wedi comisiynu gwaith ymchwil a ddaeth i'r casgliad mai 1.3 joule oedd y trothwy angeuoldeb priodol ar gyfer arfau tanio cwbl awtomatig a 2.5 joule ar gyfer arfau un ergyd.
- 1.29 Gan fod anghytuno ynghylch y trothwy priodol ar gyfer angeuoldeb, rydym yn gofyn i'r ymgynghoreion am eu barn am y trothwy sy'n briodol.
- 1.30 Nid ydym yn credu y byddai'r cynnig hwn yn cyfyngu ar y fasnach gyfreithlon mewn arfau aer. Ei unig effaith fyddai egluro pa arfau aer sy'n dod o dan ddarpariaethau Deddf Arfau Tanio 1968. O ganlyniad i'r cynnig hwn, byddai nifer mawr o arfau aer isel eu pŵer yn cael eu hystyried yn 'arfau tanio'. Byddai hyn yn golygu y byddent yn gorfod cael eu gwerthu gan Ddelwyr Arfau Tanio Cofrestredig<sup>10</sup> ar sail wyneb yn wyneb.<sup>11</sup> Fodd bynnag, mae rhwymedigaeth o'r fath wedi'i gosod eisoes yn rhinwedd adrannau 31 a 32 o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006.
- 1.31 Gan fod rhwymedigaethau penodol wedi'u gosod yn barod ar werthu'r arfau hyn gan Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006, ni fyddai cyfyngiadau ychwanegol o ganlyniad i'w dosbarthu'n arfau tanio o dan Ddeddf Arfau Tanio. Oherwydd hyn, nid ydym yn credu y byddai ein cynnig yn gosod baich ychwanegol ar rai sy'n defnyddio arfau aer yn gyfreithlon.

<sup>9</sup> Ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/firearms-consultative-committee-eleventh-annual-report> (gwelwyd ddiwethaf 17 Gorffennaf 2015). Gweler paragraffau 10.9-10.10 ac atodiadau D a F.

<sup>10</sup> Yn rhinwedd adran 3(1)(c) o Ddeddf Arfau Tanio 1968 mae'n drosedd i rywun werthu neu drosglwyddo arf aer heb gael ei gofrestru'n ddeliwr arfau tanio o dan y Ddeddf.

<sup>11</sup> h.y. byddai'r gwerthwr yn gorfod trosglwyddo meddiant ffisegol a pherchenogaeth i'r prynwr yn bersonol.

- 1.32 Mae'n bosibl y bydd mwy o effaith ar ddrylliau 'airsoft', fodd bynnag.<sup>12</sup> Mae tystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid yn awgrymu bod y rhan fwyaf o ddrylliau 'airsoft' yn cael eu gwerthu drwy'r post. Pe byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y system ddeddfwriaethol, byddai'n rhaid eu gwerthu ar sail wyneb yn wyneb. Dyma pam yr ydym yn ymgynghori ynghylch a ddylid rhoi esemptiad fel bod modd parhau i werthu drylliau 'airsoft' o bell.

## DARNAU CYDRANNOL

### Cyflwyniad

- 1.33 Mae adran 57(1)(b) o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yn datgan bod y term 'firearm' yn cynnwys 'any component part of such a lethal or prohibited weapon'. Effaith y ddarpariaeth hon yw cymhwyso'r un lefel o reolaeth sydd ar yr arf tanio at y darnau cydrannol ('component parts') sydd yn yr arf tanio hwnnw. Felly, os oes arnoch angen tystysgrif i feddu ar arf penodol, bydd arnoch angen tystysgrif hefyd i feddu ar ddarn cydrannol ohono a thrwydded mewnforio i'w fewnforio, yn ôl natur y darn cydrannol dan sylw.
- 1.34 Fodd bynnag, yr anhawster yw nad yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r term 'component part'. Mae'r diffyg hwn yn achosi cryn anhawster ymarferol.

### Y dehongliad gan y llysoedd

- 1.35 Gan nad oes diffiniad mewn deddfwriaeth, gadawyd i'r llysoedd chwilio am ddiffiniad o ddarn cydrannol. Yn achos *R v Secretary of State for the Home Department, ex parte Impower Ltd* daliodd Mr Ustus Jowitt fod y geiriau hyn yn 'ordinary English words'.<sup>13</sup> Y goblygiad yn hyn yw bod y term yn gwestiwn o ffaith i'w ystyried gan y rheithgor. Yn hytrach na bod yn rhywbeth i'w benderfynu gan y barnwr, mae hyn yn rhywbeth i'w benderfynu gan y rheithgor. Eglurwyd hyn yn achos *Rogers* a gafwyd wedyn.
- 1.36 Un cwestiwn sydd wedi codi'n ddiweddar yw a oes modd i eitem a all fod wedi dod o arf tanio dadactifedig fod yn ddarn cydrannol i ddibenion y ddeddfwriaeth. Yn achos *Ashton*, daliodd yr Arglwydd Ustus Latham nad oedd yn berthnasol y gallai'r eitem fod wedi dod o arf tanio dadactifedig.<sup>14</sup> Y cwestiwn tyngedfennol yw a yw'r eitem dan sylw yn parhau â'r gallu i gyflawni ei swyddogaeth arfaethedig yn rhan o arf tanio sy'n gweithio. Mae'r llwybr a ddilynwyd wedyn yn achos *Bewley* yn gwrth-ddweud hyn. Daliwyd yn yr achos hwnnw os nad yw arf yn arf tanio i ddibenion y ddeddfwriaeth, yna ni all unrhyw ran ohono fod yn arf tanio ychwaith.<sup>15</sup> Yn yr achos hwn, felly, nid ar y darn ei hun yr oedd y pwyslais, ond ar yr arf tanio y cymerwyd ef ohono.

<sup>12</sup> Mae 'airsoft' yn weithgarwch lle mae arfau aer isel eu pŵer yn cael eu defnyddio i berfformio senarios milwrol neu orfodi'r gyfraith, lle mae'r cyfranogwyr yn saethu peledi plastig 6mm at ei gilydd. Nid yw'r arfau dan sylw wedi'u rhigoli ac maent wedi'u gwneud o fetel dwysedd isel.

<sup>13</sup> CO/539/98.

<sup>14</sup> [2007] EWCA Crim 3485.

<sup>15</sup> [2012] EWCA Crim 1457, [2013] 1 WLR 137.

- 1.37 Felly mae anghysondeb yng nghyfraith achosion ynghylch a yw eitem sydd wedi dod o arf tanio dadactifedig yn gallu bod yn ddarn cydrannol. Mae hyn yn dyngedfennol, oherwydd byddai'r penderfyniad ynghylch a yw diffynnydd yn euog neu'n ddieuog yn gallu dibynnu ar hyn. Yn ogystal â hyn, nid oes cyfarwyddyd ynghylch union ystyr y term.

### **Problemau**

- 1.38 Mae tystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid yn awgrymu bod y methiant i ddiffinio darn cydrannol yn achosi anawsterau ymarferol. Rydym yn ymhelaethu ar y rhain isod.
- 1.39 Mae'n bosibl na fydd yr heddlu a'r awdurdodau ymchwilio'n gallu dweud a yw eitem sydd ym meddiant rhywun sydd dan amheuaeth yn ddarn cydrannol ac felly'n anghyfreithlon meddu arni heb y dystysgrif ofynnol. Mae hyn yn achosi trafferthion i Wasanaeth Eryl y Goron hefyd. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl na fydd yr awdurdodau ffiniau'n gallu dweud a yw'n gyfreithlon mewnfario rhywbeth sydd wedi'i ddal ar y ffin heb gael trwydded mewnfario'n gyntaf. Mae'n bosibl na fydd rhai sy'n dal arfau tanio trwyddedig yn gallu gwybod a oes angen iddynt gael cofnodi'r eitem dan sylw ar eu dystysgrif arf tanio. Yn olaf, efallai na fydd Delwyr Arfau Tanio Cofrestredig yn gallu gwerthu eitemau penodol gan wybod yn sicr y gellir eu gwerthu'n gyfreithlon heb wirio'n gyntaf a yw'r prynwr wedi peri i'r eitem gael ei chofnodi ar ei dystysgrif arf tanio.

### **Atebion**

- 1.40 Wrth geisio cael diffiniad o ddarn cydrannol, y nodau yw cael mwy o eglurder a sicrwydd yn ogystal â sicrhau'r diogelwch mwyaf posibl i'r cyhoedd drwy gael rheolaeth gadarn dros y darnau hynny a allai gael eu camddefnyddio'n droseddol.

#### **(1) Rhestru darnau cydrannol**

- 1.41 Un ateb fyddai rhestru mewn statud y rhannau hynny o arf tanio a fyddai'n cael eu hystyried yn 'component parts' i ddibenion adran 57(1)(b). Mae *Guide on Firearms Licensing Law*<sup>16</sup> y Swyddfa Gartref yn rhestru'r canlynol yn ddarnau cydrannol:
- (1) Y baril, y siambr, y silindr.
  - (2) Ffrâm, corff neu dderbynydd.
  - (3) Bôn, bloc, bollt neu fecanwaith arall i gynnwys y llenwad yng nghefn y siambr.
  - (4) Unrhyw ran arall o'r arf tanio y mae'r pwysau a achosir drwy danio'r arf yn effeithio arni'n uniongyrchol.<sup>17</sup>
- 1.42 Yn ei Nawfed Adroddiad, mabwysiadwyd dull tebyg gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio. Er mwyn sicrhau bod unrhyw restr yn aros yn ddigon hyblyg i

<sup>16</sup> Nid oes grym cyfreithiol i hyn, fodd bynnag.

<sup>17</sup> *Home Office Guide*, paragraffau 13.73 – 13.76.

ddelio â dyluniadau newydd neu anarferol, roedd y Pwyllgor yn argymhell rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w diwygio drwy orchymyn. Mae hyn yn golygu y byddai modd i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r rhestr heb fod angen gwneud Deddf Seneddol.

- 1.43 Byddai'r dull hwn yn dibynnu am ei lwyddiant ar yr eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr. Wrth ymdrin â'r cwestiwn hwn, byddai angen peidio â rhoi gormod o faich ar yr heddlu a'r rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig drwy fynnu bod pob wasier a sgriw yn cael ei ddal ar dystysgrif, gan sicrhau'r diogelwch mwyaf posibl i'r cyhoedd yr un pryd drwy sicrhau rheolaeth dros yr eitemau hynny y gellir eu camddefnyddio'n droseddol. Roedd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio wedi sicrhau'r cydbwysedd hwn drwy ddiffinio darn cydrannol gan gyfeirio at yr eitemau hynny sydd fwy neu lai'n unigryw i arfau tanio ('more or less unique to firearms') ac na ellid eu cyfnewid am eitemau sydd mewn defnydd cyffredinol.

### **(2) Darn sy'n dwyn pwysau**

- 1.44 Ail opsiwn yw'r un a fabwysiadwyd yn Negfed Adroddiad y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio. Yn yr adroddiad hwn, roedd y Pwyllgor wedi diffinio darn cydrannol drwy ofyn a yw'n ddarn sy'n dwyn pwysau ('pressure bearing part').<sup>18</sup> Er mwyn egluro, mae'r dull hwn o ddiffinio'n gofyn a yw'r darn dan sylw'n dod yn uniongyrchol o dan y pwysau a gynhyrchir pan gaiff yr arf ei danio.
- 1.45 Fodd bynnag, gallai'r dull hwn achosi nifer o anawsterau. Yn gyntaf, mae cwestiwn ynghylch faint o bwysau y mae'n rhaid ei roi ar y darn dan sylw cyn ei ystyried yn ddarn sy'n dwyn pwysau. Yn ail, mae'n bosibl bod darnau nad ydynt yn dwyn pwysau ond y dylid eu rheoli oherwydd y posibilrwydd o'u camddefnyddio i ddibenion troseddol.

### **(3) Darn na fyddai modd gweithredu'r peth hebddo fel arf baril angheuol**

- 1.46 Trydydd opsiwn yw diffinio'r darn cydrannol drwy ofyn a yw'n eitem na fyddai modd gweithredu'r peth dan sylw hebddi fel arf baril angheuol.<sup>19</sup> Byddai hyn yn cynnwys pinnau tanio, er enghraifft, yn y diffiniad o ddarn cydrannol.
- 1.47 Mae'n bosibl, er hynny, y gellid gweld y dull hwn yn un rhy gynhwysol oherwydd gallai roi sgriwiau a washeri dan reolaeth. Gellid cael anghytuno hefyd ynghylch a fyddai'r arf tanio heb y gallu i weithredu fel arf baril angheuol heb y darn dan sylw.

### **Manteision y dulliau hyn**

- 1.48 Ar ôl pwyso a mesur, rydym wedi dod i'r farn mai'r dull sydd wedi'i argymhell gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio yn ei Nawfed Adroddiad, sef rhestru darnau y gellid eu hystyried yn ddarnau cydrannol, yw'r mwyaf dymunol gan mai hwn sy'n rhoi'r sicrwydd a'r eglurder mwyaf. Mae hefyd yn gymharol hawdd ei ddeall. Felly, y diffiniad o'r term 'component part' fyddai:

- (1) Y baril, y siambr, y silindr;

<sup>18</sup> Tenth Report of the Firearms Consultative Committee, paragraff 13.9.

<sup>19</sup> Gweler L Saunbury a N Doherty, *The British Firearms Law Handbook* (2011).



- (2) Ffrâm, corff neu dderbynwyr uchaf ac isaf os ydynt yn bresennol yn yr arf tanio cyflawn;
  - (3) Bôn, bloc, bollt neu fecanwaith arall ar gyfer cynnwys y llenwad yng nghefn y siambr.
- 1.49 Rydym yn credu y byddai cynnwys darpariaeth ‘dal popeth’ wedi’i seilio ar ofyn a yw’r darn yn dwyn pwysau yn tanseilio sicrwydd ac felly rydym wedi hepgor (4) o restr y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio.
- 1.50 Er mwyn delio ag unrhyw anghysonder rhwng achosion *Ashton a Bewley*, rydym yn cynnig am y tro y dylai’r gyfraith hefyd bennu y dylid canolbwyntio wrth holi ar ofyn a yw’r darn yn gallu cyflawni ei swyddogaeth fel rhan o arf tanio sy’n gweithio, yn hytrach nag ar ofyn a yw’r arf y cymerwyd ef ohono’n arf tanio yn nhermau adran 57 o Ddeddf Arfau Tanio 1968. Byddai hyn yn dangos y tu hwnt i amheuaeth mai’r hyn sy’n dyngedfennol yw a yw’r darn yn parhau â’r gallu i gyflawni ei swyddogaeth yn hytrach na’r arf y cymerwyd y darn ohono.
- 1.51 Er mwyn sicrhau bod y rhestr yn hyblyg a’i bod yn gallu ymateb i ddatblygiadau technolegol, rydym hefyd yn cynnig y dylid rhoi pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol i’w diwygio drwy orchymyn.

#### **Darnau Cydrannol Drylliau**

- 1.52 Mae adran 57 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yn datgan nad yw darnau cydrannol drylliau’n cael eu hystyried yn arfau tanio i ddibenion y ddeddfwriaeth. Felly nid yw darnau cydrannol drylliau yn dod o dan yr un lefel o reolaeth â darnau cydrannol arfau tanio. Yn ei Nawfed Adroddiad, roedd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio wedi dweud bod hyn yn anghyson (‘anomalous’).<sup>20</sup> Felly mae Comisiwn y Gyfraith yn gofyn i ymgynghoreion am eu barn ynghylch a ddylai’r gyfraith ddsbarthu darnau cydrannol drylliau yn yr un ffordd ag y mae’n dosbarthu darnau cydrannol arfau tanio ac, os felly, ym mha dermau.

#### **ARFAU TANIO HYNAFOL**

- 1.53 Mae adran 58(2) yn datgan: ‘Nothing in this Act relating to firearms shall apply to an antique firearm which is sold, transferred, purchased, acquired or possessed as a curiosity or ornament’. Effaith ymarferol y ddarpariaeth hon yw esemptio arfau tanio hynafol rhag y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, ei bod yn gyfreithlon meddu, gwerthu neu fewnforio arf tanio hynafol heb unrhyw fath o dystysgrif, ar yr amod ei fod yn cael ei werthu, trosglwyddo etc fel cywreinbeth neu addurn.
- 1.54 Y broblem, fodd bynnag, yw nad yw’r ddeddfwriaeth yn diffinio ‘antique firearm’ na ‘curiosity or ornament’. Yn yr adran hon, rydym yn egluro’r problemau sydd wedi’u hachosi am nad yw’r ddeddfwriaeth yn pennu ystyr y termau hyn ac yn gofyn i ymgynghoreion am eu barn ynghylch gwahanol opsiynau ar gyfer diwygio.

<sup>20</sup> *Ninth Report of the Firearms Consultative Committee*, Atodiad C, paragraff 10.

## Y gyfraith bresennol

### *Dehongliad y llysoedd*

- 1.55 Mae adran 58(2) yn esemptio arfau tanio hynafol rhag darpariaethau'r Ddeddf ar yr amod eu bod yn cael eu gwerthu, trosglwyddo etc. fel cywreinbeth neu addurn. Fel y nodwyd yn barod, nid yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r un o'r termau hyn. Gan nad oes diffiniadau statudol, gadawyd i'r llysoedd ddiffinio'r termau hyn. Mae ansicrwydd ynghylch pa nodweddion y mae'n rhaid eu cael mewn arf tanio cyn y gellir ei ystyried yn arf tanio hynafol i ddibenion adran 58(2).
- 1.56 Yn achos *Howells* nid oedd y llys wedi darparu diffiniad.<sup>21</sup> Er hynny, fe benderfynodd nad yw'n amddiffyniad i'r unigolyn gredu'n wirioneddol bod yr arf tanio'n hynafol. Gallai annhegwch mawr godi o ganlyniad i hyn.
- 1.57 Yn achos *Richards v Curwen* a gafwyd wedyn, roedd y diffynnydd yn meddu dau bistol a oedd heb fod yn fwy na 85 mlwydd oed.<sup>22</sup> Cafodd yr ynadon nad oedd y rhain yn arfau tanio hynafol ac fe'i cafwyd yn euog ar dri chyhuddiad o feddu ar arf tanio heb dystysgrif. Gwrthododd y llys y ddadl y dylai'r llys ddarparu diffiniad o arf tanio hynafol. Daliwyd y byddai'n amhriodol darparu diffiniad gan fod y Senedd wedi methu â gwneud hynny.
- 1.58 Dilynwyd llwybr tebyg yn achosion *Bennett v Brown*<sup>23</sup> a *Thompson*.<sup>24</sup> Yn y naill na'r llall o'r achosion hyn, nid oedd y llys wedi pennu meini prawf i'w cymhwysio wrth benderfynu a oedd arf tanio'n hynafol. Mae'r gyfraith wedi symud ymlaen o'r naill achos i'r llall ac mae'n dibynnu ar y ffordd y mae'r rheithgor yn dehongli'r gair 'antique'. Er enghraifft, yn achos *Kevin Schofield* roedd y rheithgor wedi derbyn bod peiriandryll bach Lanchester a wnaed ym 1940 yn beth hynafol a'i fod ym meddiant y diffynnydd fel cywreinbeth neu addurn.<sup>25</sup>
- 1.59 Yr hyn sy'n glir yw ei bod yn ansicr pa nodweddion y mae'n rhaid eu cael mewn arf tanio cyn ei ystyried yn arf tanio hynafol. A yw oed yn ffactor diffiniol neu a ddylid canolbwyntio ar ofyn a ellir defnyddio'r arf tanio dan sylw?

### **Canllaw'r Swyddfa Gartref**

- 1.60 Yn *Guide* y Swyddfa Gartref nodir: "antique" should cover those firearms of a vintage and design such that their free possession does not pose a realistic danger to public safety'. Mae'r *Guide* yn dangos rhestr o arfau tanio y dylid eu hystyried yn hynafol a'r rheini na ddylid eu hystyried felly. Nid oed yw'r ffactor diffiniol, ond a yw'r bwledi neu getris ar gael yn rhwydd ar gyfer yr arf tanio dan sylw. Mae'r arfau tanio hynny nad oes bwledi neu getris ar gael yn rhwydd ar eu cyfer bellach yn cael eu galw'n arfau tanio calibr darfodedig ('obsolete calibre').
- 1.61 Nid oes grym cyfreithiol i'r canllaw hwn, fodd bynnag. Felly mae'n bosibl, er gwaethaf hyn, y byddai rheithgor yn gallu cael nad yw arf tanio sydd ar y rhestr o arfau calibr darfodedig yn arf tanio hynafol. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Mae

<sup>21</sup> [1977] QB 614.

<sup>22</sup> [1977] 1 WLR 747.

<sup>23</sup> (1980) 71 Cr App R 109.

<sup>24</sup> CO/1572/94.

<sup>25</sup> Llys y Goron Bournemouth, 5 Hydref 2006.

hyn yn arwain at y posibilrwydd o annhegwch ac mae'n niweidiol i gasglwyr dilys yn ogystal â'r awdurdodau ymchwilio a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Er gwaethaf pob ymdrech gan y casglwr i gydymffurfio â'r gyfraith, fe allai fynd yn groes iddi. Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwybod i sicrwydd a yw'r un sydd dan amheuaeth yn meddu ar rywbeth y mae'n gyfreithlon iddo feddu arno.

- 1.62 Er mwyn drysu pethau ymhellach, mae Protocol Vienna y Cenhedloedd Unedig ar Arfau Tanio yn darparu na fydd y diffiniad o arfau tanio hynafol yn cynnwys unrhyw arfau tanio a gynhyrchwyd ar ôl 1899.

### **Arfau tanio o ddiddordeb hanesyddol**

- 1.63 Nid adran 58(2) o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yw'r unig ddarpariaeth sy'n ymdrin â hen arfau tanio. Roedd adran 1 o Ddeddf Arfau Tanio (Diwygio) 1997 wedi diwygio adran 5 o Ddeddf 1968 i ehangu'r rhestr o arfau gwaharddedig i gynnwys y rhan fwyaf o ddrylliau. Dim ond ar ôl cael awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol y gellir meddu ar arfau gwaharddedig. Mae adran 7 yn cynnwys eithriad ar gyfer rhai mathau o arfau tanio hanesyddol, os yw amodau penodol wedi'u bodloni. Er y gellir meddu'n gyfreithlon ar arfau tanio sydd yn y categori hwn heb gael awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid eu cofnodi ar dystysgrif arfau tanio.
- 1.64 Mae adran 7(1) yn esemptio'r arfau tanio hynny a gynhyrchwyd cyn 1919 ac nad oes bwledi neu getris ar gael yn rhwydd ar eu cyfer. Mae adran 7(3) yn esemptio'r arfau tanio hynny sydd (a) yn neilltuol o brin, o werth esthetig neu o ddiddordeb technegol neu (b) o bwysigrwydd hanesyddol ('historic importance'). Mae adran 7(4) yn egluro nad yw'r esemptiadau hyn yn lleihau effaith adran 58(2). Felly mae adran 7 yn cydfodoli ochr yn ochr ag adran 58(2).
- 1.65 Gellid dadlau nad yw'n rhesymegol bod y darpariaethau hyn yn cydfodoli. Er enghraifft, ni fyddai arf tanio a gynhyrchwyd ar ôl 1919 yn gallu dod o fewn adran 7(1). Hyd yn oed pe gallai, dim ond os oedd wedi'i ddal ar dystysgrif arf tanio y gellid meddu arno'n gyfreithlon. Er gwaethaf y ffaith nad yw'r esemptiad cyfyng hwn yn gymwys i'r arf tanio dan sylw, fe allai ddod o fewn cwmpas adran 58(2), er hynny. Os felly, byddai'n gyfreithlon meddu arno heb unrhyw fath o dystysgrif neu reolaeth.

### **Problemau ynglŷn â'r gyfraith bresennol**

- 1.66 Mae'r rheini sydd â diddordeb dilys mewn arfau tanio hynafol yn dibynnu i raddau helaeth ar adran 58(2). Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhai sydd â bwriad troseddol yn camfanteisio ar yr esemptiad hwn. Mae hyn wedi'i gydnabod drwy ddiwygiadau diweddar mewn deddfwriaeth. O ganlyniad i adran 110 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, mae arfau tanio hynafol wedi'u cynnwys am y tro cyntaf o fewn y darpariaethau ar gyfer y person a waharddwyd.
- 1.67 O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r newidiadau olynol i Ddeddf Arfau Tanio 1968 yn golygu nad yw person sydd wedi treulio o leiaf dri mis a llai thair blynedd mewn carchar yn gallu meddu ar arf tanio, gan gynnwys arf tanio hynafol, am bum mlynedd ar ôl ei ryddhau o'r carchar. Nid yw person sydd wedi cael dedfryd ohiriedig o dri mis neu fwy mewn carchar yn gallu meddu ar arf tanio am bum mlynedd, gan ddechrau o'r ail ddiwrnod ar ôl dyddiad y dedfryd. Nid yw person

sydd wedi treulio mwy na thair blynedd yn y carchar yn gallu meddu ar arf tanio neu arf tanio hynafol byth.

1.68 Mae'r gyfraith fel y mae ar hyn o bryd yn creu'r anawsterau canlynol:

- (1) Am fod yr eithriad mor eang, mae'r gyfraith yn methu ag atal y rheini sydd â bwriad troseddol rhag caffael arfau tanio'n rhwydd a meddu arnynt – Rhwng Ionawr 2011 a Rhagfyr 2014 roedd Uned Arfau Tanio Fforensig Heddlu Llundain wedi archwilio o leiaf 94 o arfau tanio â chalibr yr oedd y Swyddfa Gartref yn ei ystyried yn ddarfodedig. Adenillwyd yr holl arfau tanio hyn mewn amgylchiadau troseddol h.y. nid oedd yr un ohonynt wedi'i ildio. Cafwyd bod dau ohonynt wedi'u defnyddio mewn digwyddiadau saethu, un ohonynt yn ymwneud â swyddog heddlu a oedd wedi'i saethu drwy ei law.
- (2) **Anawsterau wrth ymchwilio** – nid oes modd i'r heddlu wybod a yw unigolyn yn troseddu wrth werthu arf tanio hynafol iddo. Mae popeth yn dibynnu ar y cwestiwn a yw'r unigolyn yn bwriadu i'r eitem fod yn gywreinbeth neu addurn. Oherwydd hyn, rhaid i'r heddlu ddibynnu ar ddulliau sensitif o gasglu tystiolaeth, sy'n ddwys o ran eu defnydd o adnoddau ac yn ymwithiol mewn rhai achosion.
- (3) **Problemau i gasglwyr dilys** – a bod yn fanwl, fel mater o gyfraith, nid yw rhywun sy'n caffael arf tanio y mae'n credu'n onest ei fod yn hynafol yn gallu gwybod yn bendant a yw'r arf tanio yn ei feddiant yn arf tanio hynafol nes iddo gael ei erlyn ac i'r rheithgor roi ei reithfarn. Yn ogystal â hyn, mae'r Gymdeithas Drylliau Targedu Genedlaethol wedi dweud nad yw'r sefyllfa bresennol o dan y gyfraith yn ddymunol 'as different police forces might have differing views, resulting in a "postcode lottery" of an item being considered to be an antique in one area but defined as a firearm in another area'.
- (4) **Mwy o angen am dystiolaeth arbenigol** – gan ei fod yn gwestiwn o ffaith i'r rheithgor, mae angen tystiolaeth arbenigol i helpu rheithwyr i benderfynu a yw'r arf tanio dan sylw'n hynafol. Yr anhawster yw y gallai gwahanol arbenigwyr ddehongli'r term mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, gallai arbenigwr yr erlyniad ymdrin â'r cwestiwn o ba un a yw calibr yr arf tanio'n ddarfodedig, tra byddai arbenigwr yr amddiffyniad yn gallu ymdrin â'r cwestiwn a yw'n 100 mlwydd oed o leiaf. Mae hyn yn peri dryswch mawr i'r rheithgor mewn treialon ac yn arwain at ganlyniadau anghyson.

#### **Atebion posibl**

1.69 Mae Comisiwn y Gyfraith yn gofyn i ymgylgoreion am eu barn ynghylch addasrwydd nifer o ffyrdd posibl o ddiffinio 'antique'. Yr egwyddor sylfaenol wrth geisio diffinio 'antique' yw diogelu'r cyhoedd i'r graddau mwyaf posibl. Drwy ddileu'r ansicrwydd a geir yn y gyfraith ar hyn o bryd, bydd y rhai sydd â diddordeb dilys mewn casglu arfau tanio hynafol hefyd yn gallu teimlo'n hyderus eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith heb ei thorri'n anfwriadol. Nid troseddoli casglwyr yw'r nod, ond sicrhau nad yw'r rheini sydd â bwriad troseddol yn camfanteisio ar yr esemptiad ar gyfer arfau tanio hynafol.

- 1.70 A siarad yn gyffredinol, gellir rhannu'r atebion hyn yn ddau gategori: y rheini sy'n diffinio arf tanio hynafol drwy gyfeirio at ei oed a'r rheini sy'n ei ddiffinio drwy gyfeirio at ei swyddogaeth.

### **Diffiniad 100 mlynedd treigl**

- 1.71 Un ateb yw gofyn a yw'r arf tanio dan sylw'n 100 mlwydd oed. Os ydyw, yna mae'n hynafol. Er bod y dull hwn yn ddeniadol ar yr olwg gyntaf am ei fod yn syml, nid ydym yn credu ei fod yn ymarferol. Yn gyntaf, gellid credu mai mympwyol fyddai mabwysiadu blwyddyn benodol. Yn ail, gall fod yn anodd cadarnhau pa mor hen yw arf tanio. Yn olaf, mae goblygiadau negyddol posibl i ddiogelwch cyhoeddus. Mae patrwm sylfaenol arfau tanio wedi aros yn ddigyfnewid am ddegawdau. Yn ôl y math o arf tanio, gallai un a gynhyrchwyd ym 1915 fod yr un fath o ran ei weithrediadau ag un a gynhyrchwyd yn 2015. Byddai'n anghyfreithlon meddu ar yr olaf heb yn gyntaf gael awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol tra gellid dal y cyntaf yn rhydd heb unrhyw fath o dystysgrif. Ni fyddai sefyllfa o'r fath yn ddymunol. Oherwydd hyn, rydym wedi dod i'r farn mai'r ffactor tyngedfennol y dylid ei ystyried wrth benderfynu pa arfau tanio y gellir eu hesemptio o dan adran 58(2) yw eu swyddogaeth. Mae nifer o ystyron i swyddogaeth.

### **Cetris darfodedig**

- 1.72 Un opsiwn, wedi'i seilio ar y rhestr o galibrau darfodedig yn *Guide* y Swyddfa Gartref, yw gofyn a yw siambr yr arf tanio ar gyfer cetris sydd ar y rhestr o galibrau darfodedig. Er mwyn i'r dull hwn fod yn ymarferol, byddai'n rhaid ffurfioli'r ffordd o ddiweddarau'r rhestr. Fodd bynnag, mae problemau ynglŷn â'r dull hwn y byddai angen eu datrys er mwyn iddo fod yn ymarferol.

- (1) mae'n gymhleth ac yn galw am amser ac arbenigedd i benderfynu a yw'r arf penodol a gyflwynwyd mewn ymchwiliad yn cynnwys siambr ar gyfer cetris darfodedig neu beidio;
- (2) mae'n bosibl na fydd cetris sy'n 'ddarfodedig' yn parhau'n ddarfodedig: gellir cysylltu â chynhyrchwyr dros y rhyngwyd a fydd yn gwneud bwledi a chetris 'darfodedig' ar archeb;
- (3) cafwyd tystiolaeth gan yr heddlu sy'n awgrymu bod siambrau arfau tanio ar gyfer cetris darfodedig yn cael eu haddasu i gynnwys cetris modern;
- (4) cafwyd tystiolaeth gan yr heddlu sy'n awgrymu bod troseddwyd yn prynu arfau tanio sy'n defnyddio cetris darfodedig ac yn cynhyrchu cetris sy'n addas ar eu cyfer.

### **'Dull Canada'**

- 1.73 Yr ail opsiwn yw un y gellid ei alw'n 'dull Canada'. Mae'r dull hwn yn pennu'r calibrau hynny *na ellir* eu hystyried yn hynafol am eu bod yn fodern.

### **Y flwyddyn gynhyrchu'n pennu swyddogaeth**

- 1.74 Y trydydd opsiwn yw pennu mai arf tanio hynafol yw pob arf tanio a gynhyrchwyd cyn blwyddyn benodol. Byddai'r flwyddyn yn cael ei phennu drwy gyfeirio at y ffaith ei bod cyn cyflwyno systemau tanio modern. Y diffiniad o 'modern firearm'

yn adran 38(8) o Ddeddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006 yw un a gynhyrchwyd ar ôl 1870. Drwy oblygiad, a yw arf tanio hynafol yn un a gynhyrchwyd cyn y flwyddyn hon? Y broblem ynglŷn â'r dull hwn yw y gall fod yn anodd cadarnhau pa bryd y cynhyrchwyd arf tanio.

### **Mecanwaith**

- 1.75 Yn olaf, gellid penderfynu ar swyddogaeth drwy ofyn a yw'r arf tanio'n defnyddio system tanio ddarfodedig. Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu mewn rhai awdurdodaethau eraill. Er enghraifft, yng Ngorllewin Awstralia nid yw'n ofynnol cael tystysgrif i feddu ar arf tanio sydd ag 'antique firing mechanism'. Ystyr hyn yw, "a muzzle loading firearm (including a percussion lock handgun that is muzzle loading) manufactured before 1900 that uses black powder to propel a shot, bullet, or other missile except that it does not include a breech loading firearm, a firearm with revolving chambers, or a cannon".
- 1.76 Er y byddai'r dull hwn yn rhoi'r sicrwydd ac eglurder mwyaf posibl, gallai gyfyngu'n sylweddol ar yr arfau tanio y gellir eu hesemptio o dan adran 58(2). Oherwydd hynny, gellid ei ystyried yn annymunol.
- 1.77 Oherwydd y gwahanol ystyriaethau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth geisio diffinio arf tanio hynafol, rydym yn gwahodd ymgylgoreion i roi eu barn am addasrwydd yr holl opsiynau hyn.

### **MATERION HEBLAW DIFFINIADAU**

- 1.78 Mae rhanddeiliaid wedi dod â materion eraill i'n sylw nad ydynt yn ymwneud â'r diffiniad o 'antique'.
- 1.79 Mae'r heddlu wedi awgrymu ei bod yn afresymegol rhoi mwy o rwymedigaethau ar ddelwyr metel sgrap nag ar y rheini sy'n gwerthu arfau tanio, er mai arfau tanio hynafol ydyn nhw. Yn rhinwedd adran 12 o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013, rhaid i ddeliwr metel sgrap beidio â thalu am fetel sgrap heblaw drwy siec, neu drwy drosglwyddo cyllid electronig. Yn ogystal â hyn, yn rhinwedd adran 11 – 15, rhaid i ddelwyr metel sgrap gofnodi pob trafodiad, y dull o dalu, ac i bwy y gwnaed y taliadau.
- 1.80 Nid oes rhwymedigaeth o'r fath yng nghyd-destun gwerthu arfau tanio hynafol. Awgrymodd yr heddlu ei bod bron yn amhosibl oherwydd hyn olrhain perchenogion arfau tanio hynafol a ddefnyddiwyd wrth droseddau. Am na ellir eu holrhain, mae arfau tanio hynafol hefyd yn fwy deniadol nag y byddent fel arall i'r rheini sydd â bwriad troseddol. Rydym yn cynnig am y tro fod rhwymedigaeth yn cael ei gosod wrth brynu arf tanio hynafol fel bod rhaid talu amdano drwy siec neu drosglwyddo cyllid electronig a bod rhaid cofnodi pob gwerthiant.
- 1.81 Yn olaf, yn ôl un dehongliad o adran 58(2), mae arfau tanio hynafol wedi'u hesemptio rhag holl ddarpariaethau Deddf Arfau Tanio 1968, nid yn unig y rheini sy'n ymwneud â thrwyddedu. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, na fyddai'n drosedd yn groes i adran 17 i arf tanio hynafol gael ei ddefnyddio i wrthsefyll arestio.
- 1.82 Rydym yn credu bod hwn yn anghysonder y dylid ei ddileu ac yn cynnig am y tro y dylid pennu ei bod yn bosibl cyflawni'r troseddau yn adrannau 16 – 25 o Ddeddf

Arfau Tanio 1968 gan ddefnyddio arf tanio hynafol. Dim ond ar y rheini sydd â bwriad troseddol y byddai'r cynnig hwn yn effeithio. Y troseddau perthnasol yw:

- (1) Adran 16A o Ddeddf Arfau Tanio 1968 – meddu ar arf tanio gyda'r bwriad o beri i unrhyw berson gredu y bydd trais anghyfreithlon yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn;
- (2) Adran 17 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 – defnyddio arf tanio gyda'r bwriad o wrthsefyll neu atal arestio cyfreithlon neu gadw cyfreithlon;
- (3) Adran 18 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 – cario arf tanio gyda'r bwriad o gyflawni trosedd ditiadwy;
- (4) Adran 19 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 – cario arf tanio mewn lle cyhoeddus;
- (5) Adran 20 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 – tresmasu gydag arf tanio;
- (6) Adran 22 - prynu neu werthu arfau tanio i bobl ifanc dan oed;
- (7) Adran 24 – cyflenwi arf tanio i blentyn dan oed;
- (8) Adran 25 – cyflenwi arf tanio i berson sy'n feddw neu'n orffwyll.

#### **ARFAU TANIO DADACTIFEDIG**

- 1.83 Y diffiniad o arf tanio dadactifedig yn adran 38(7) o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 yw 'an imitation firearm that consists in something which was a firearm but has been rendered incapable of discharging a shot, bullet or other missile as no longer to be a firearm'. Gan nad yw bellach yn gallu rhyddhau teflyn, a siarad yn fanwl, nid yw arf tanio dadactifedig yn arf tanio ac felly mae'n gyfreithlon meddu arno heb unrhyw fath o dystysgrif.
- 1.84 Ceir rhai o'r safonau mwyaf caeth yn y byd ar ddadactifadu yn y DU, ond nid oes gofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â nhw.

#### **Y gyfraith bresennol**

- 1.85 Mae Deddf Arfau Tanio (Diwygio) 1988 yn darparu y bydd rhagdybiaeth bod arf tanio wedi'i ddadactifadu at safon a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol os oes marc cymeradwyedig arno i ddynodi'r ffaith a bod un o'r ddau Dŷ Profi wedi ardystio drwy lythyr ei fod wedi'i ddadactifadu at y safon honno. Mae hyn yn golygu, oni bai fod prawf i'r gwrthwyneb, y cymerir ei fod wedi'i analluogi i danio teflyn ac y gellir meddu arno'n gyfreithlon heb unrhyw fath o dystysgrif.
- 1.86 Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith yn datgan bod rhaid i arf tanio gael ei ddadactifadu yn y ffordd hon. Yr unig ddarpariaeth yw y bydd rhagdybiaeth bod arf tanio sydd wedi mynd drwy'r broses a ddisgrifiwyd yn adran 8 wedi cael ei ddadactifadu. Felly, mae'n bosibl y gallai llys dderbyn bod arf tanio wedi'i ddadactifadu er nad oedd wedi mynd drwy'r broses hon.
- 1.87 Ym 1989 cyflwynodd y Swyddfa Gartref safonau yr oedd yn rhaid cydymffurfio â nhw wrth ddadactifadu arf tanio. Roedd y rhain yn disgrifio'r newidiadau ffisegol yr oedd yn rhaid eu gwneud mewn arf tanio er mwyn manteisio ar y rhagdybiaeth

yn adran 8. Adolygwyd y rhain ym 1985 ac yn 2010. Nid yw'r safonau diweddaraf yn ôl-weithredol. Mae hyn yn golygu bod arf tanio a gafodd ei ddadactifadu at safon 1989 yn cael ei ystyried yn arf tanio dadactifedig o hyd.

### **Problemau ynglŷn â'r gyfraith bresennol**

- 1.88 Fel yr ydym wedi egluro'n barod, nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol i ddilyn y broses sydd wedi'i disgrifio yn adran 8 o Ddeddf Arfau Tanio (Diwygio) 1988. Y bwriad yw bod dadactifadu'n broses derfynol. Er hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu bod modd ailactifadu rhai arfau tanio dadactifedig a pheri iddynt ryddhau teflynnau sydd â grym angheuol. Mae'r rhain yn mynd i ddwylo troseddwr ac yn cael eu defnyddio i gyflawni troseddau. Yn ei Ddegfed Adroddiad, nododd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Arfau Tanio fod tystiolaeth yn awgrymu bod arfau tanio dadactifedig yn gallu peryglu diogelwch cyhoeddus. Yn fwy diweddar, yn ôl NaBIS, mae cyfran y digwyddiadau saethu troseddol sy'n cynnwys arfau tanio a ailactifadwyd wedi codi yn y tair blynedd diwethaf. Roedd 30 y cant o'r digwyddiadau hyn wedi arwain at anafiadau, gan gynnwys pum marwolaeth. Yn olaf, mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cydnabod bod problem a bydd yn cyhoeddi papur cyn hir i amlinellu atebion posibl a fyddai'n rhwymo'r holl Aelod-wladwriaethau.

### **Atebion**

- 1.89 Rydym yn credu y dylid gosod rhwymedigaeth gyfreithiol i ddilyn y broses dadactifadu sydd wedi'i disgrifio yn adran 8 o Ddeddf Arfau Tanio (Diwygio) 1988. Mae tair ffordd bosibl o gyflawni hyn.
- (1) Gellid diwygio'r diffiniad o 'deactivated firearm' yn adran 38(7) fel mai dim ond yr arfau tanio hynny a ddadactifadwyd at safon gymeradwyedig y Swyddfa Gartref sy'n dod o fewn y diffiniad.
  - (2) Gellid diwygio adran 8 o Ddeddf Arfau Tanio (Diwygio) 1988 i ddatgan nad yw bellach yn ddarpariaeth dystiolaethol.
  - (3) Gellid galw ar y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 39 o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006.<sup>26</sup> Byddai hyn yn ei gwneud yn drosedd cynhyrchu, addasu, neu fewnforio arf tanio a oedd heb ei ardystio'n un a oedd wedi'i ddadactifadu at safon a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref.
- 1.90 Mae manteision penodol i bob un o'r opsiynau hyn. Oherwydd hynny, rydym yn gofyn i ymgynghoreion am eu barn am y dull sy'n fwyaf priodol.
- 1.91 Os nad yw arf yn gallu rhyddhau teflyn, rydym yn awgrymu y dylid canolbwyntio wrth ei ddosbarthu ar ofyn a yw'n arf tanio ffug y gellir ei addasu'n rhwydd yn arf tanio. Mantais y dull hwn yw ei fod yn sicrhau bod arf tanio a ddadactifadwyd ond sy'n gallu rhyddhau teflyn yn parhau'n arf tanio a'i bod yn anghyfreithlon meddu arno. Os yw arf yn gallu rhyddhau teflyn, y cwestiwn yw, a fyddai'n gallu gwneud hynny â grym angheuol.

<sup>26</sup> Mae hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod arfau tanio ffug yn cydymffurfio â manylebau sydd wedi'u nodi mewn rheoliadau.



### **Ymdrechu i ailactifadu arf tanio dadactifedig – a yw'r rhagdybiaeth yn parhau'n gymwys?**

- 1.92 Mae'n bosibl y gallai unigolyn geisio ailactifadu arf tanio yr ardystiwyd ei fod wedi'i ddadactifadu at safon a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref. Y cwestiwn sy'n codi yw a yw hyn yn peri i'r dadactifadu fod yn annilys neu a yw'r rhagdybiaeth yn adran 8 yn parhau'n gymwys i'r arf tanio. Mae'r safonau diweddaraf ar ddadactifadu a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2010 yn pennu ei bod yn parhau'n gymwys. Er hynny, nid oes grym cyfreithiol i'r haerriad hwn. Er mwyn delio â'r sefyllfa hon, rydym yn cynnig am y tro fel mater o gyfraith y bydd unrhyw ymgais i addasu arf tanio sydd wedi'i ddadactifadu at safon a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref yn peri bod y dadactifadu'n annilys. Felly ni fyddai'r rhagdybiaeth nad yw'r eitem yn arf tanio yn parhau'n gymwys.

### **Ymdrechion i newid arf tanio sydd wedi'i ddadactifadu at safon a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref**

- 1.93 Mae trosedd penodol yn adran 4(3) o Ddeddf Arfau Tanio 1968 sy'n ei gwneud yn drosedd: 'for someone other than a registered firearms dealer to convert into a firearm anything which, although having the appearance of being a firearm, is constructed so as to be incapable of discharging a missile'. Mae'r geiriad hwn yn amwys, fodd bynnag. Yn ôl un dehongliad, nid yw ond yn gymwys os nad oedd yr arf dan sylw *erioed* wedi gallu rhyddhau teflyn. Y rheswm am hyn yw ei fod yn datgan bod rhaid i'r eitem fod wedi'i hadeiladu (*'constructed'*) fel nad oedd yn gallu rhyddhau teflyn. Fodd bynnag, roedd arfau tanio dadactifedig ar un adeg yn arfau tanio a oedd yn gweithio. Felly gallai'r trosedd fod yn rhy gyfyng i droseddoli ymgais i ailactifadu rhywbeth a oedd unwaith yn arf tanio. Er mwyn cau'r bwlch yn y gyfraith, rydym yn cynnig am y tro fod adran 4(3) yn cael ei haddasu i ddangos y tu hwnt i amheuaeth ei bod yn gymwys pa un a oedd yr arf dan sylw ar ddechrau ei oes yn arf tanio a oedd yn gweithio neu beidio.

### **Dadactifadu arfau tanio mewn awdurdodaethau eraill**

- 1.94 Gan fod adran 8 o Ddeddf Arfau Tanio (Diwygio) 1988 yn gymwys i arfau tanio sydd â marc profi Prydeinig yn unig, nid yw'r rhagdybiaeth yn gymwys i arfau tanio a gafodd eu dadactifadu mewn gwledydd eraill. Os yw arf tanio wedi cael ei ddadactifadu mewn awdurdodaeth arall, mae canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn datgan y bydd yn cael ei ystyried yn arf tanio sy'n gweithio. Felly byddai angen cael trwydded mewnforio a'r ardystiadau gofynnol i fewnforio arf tanio o'r fath.<sup>27</sup> Bydd yr union ddogfennaeth sy'n ofynnol yn dibynnu ar y math o arf tanio ac o ble mae'n dod.

### **ARFAU TANIO FFUG Y GELLIR EU TROSI'N RHWYDD**

- 1.95 Mae adran 1 o Ddeddf Arfau Tanio 1982 yn disgrifio'r gyfraith sy'n ymwneud ag arfau tanio ffug y gellir eu trosi'n rhwydd. Arfau tanio ffug yw'r rhain y gellir eu haddasu i'w galluogi i ryddhau teflyn.
- 1.96 Mae adran 1 o Ddeddf 1982 yn darparu bod eitem ac iddi'r nodweddion canlynol yn cael ei hystyried yn arf tanio y bydd adran 1 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yn gymwys iddo. Mae hyn yn golygu bod angen cael tystysgrif arf tanio (neu

<sup>27</sup> *Department for Business, Innovation and Skills – Do I need a BIS import license? (2015),* paragraff 98.

awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol os yw'n arf gwaharddedig) i feddu ar yr arf ffug os byddai angen y dystysgrif neu'r awdurdod hwnnw i ddal yr arf go iawn. Y nodweddion hynny yw:

- (1) Bod yr eitem dan sylw'n ymddangos ei bod yn arf tanio y mae adran 1 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yn gymwys iddo; a
  - (2) Ei bod wedi'i hadeiladu neu ei haddasu fel y gellir ei throsi'n rhwydd yn arf tanio y mae'r adran honno'n gymwys iddo.
- 1.97 Mae is-adran (8) o Ddeddf 1982 yn darparu y bydd arf ffug yn rhwydd ei drosi ('readily convertible'):
- (1) Os gellir ei drosi heb unrhyw fedr arbennig ar ran y person sy'n ei drosi wrth adeiladu neu addasu arfau tanio o unrhyw fath; a
  - (2) Os nad yw'r gwaith sy'n gysylltiedig â'i drosi'n galw am ddefnyddio cyfarpar neu offer heblaw'r rheini sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin gan bersonau sy'n cyflawni gwaith adeiladu neu gynnal yn eu cartrefi eu hunain.
- 1.98 Yn achos *Bewley* eglurodd y Llys Apêl fod rhaid darllen Deddf Arfau Tanio 1968 a Deddf Arfau Tanio (Diwygio) 1982 fel un cod. Felly dim ond yr arfau tanio ffug hynny sy'n rhwydd eu trosi ("readily convertible") o fewn ystyr is-adran (8) y mae'n rhaid eu dal ar dystysgrif neu o dan awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol. Daliodd y llys os mai dim ond drwy ddefnyddio offer y gall rhywbeth ryddhau teflyn, er enghraifft drwy ddefnyddio pwnsh a morthwyl i daro'r pin tanio, yna nid yw'n arf tanio.

### **Problemau ynglŷn â'r gyfraith bresennol**

- 1.99 Mae'r gallu i gael gwybod a yw arf ffug yn rhwydd ei drosi yn dyngedfennol. Cafodd Deddf 1982 ei gwneud cyn dyfodiad y rhynggrwyd. Mae'r rhynggrwyd yn rhoi'r gallu i gaffael offer a fyddai wedi'u hystyried yn arbenigol ym 1982. Am y rheswm hwn y mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod yr agwedd hon ar Ddeddf 1982 wedi dyddio a bod angen ei moderneiddio. Mewn tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref yn 2010, er enghraifft, cyflwynodd ACPO a NaBIS y sylwadau hyn: 'These terms create confusion and a lack of common understanding; neither do they reflect the range of tools available within the domestic marketplace.' Rydym yn cyd-weld â'r sylw hwn.

### **Atebion**

- 1.100 Daeth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref i'r casgliad y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth i sicrhau bod y diffiniad o 'readily convertible' yn adlewyrchu'n gywir y galluoedd sydd gan droseddwyr cyfoes i droi arfau tanio ffug yn arfau tanio sy'n gweithio. Gan fod bron 35 mlynedd wedi mynd heibio ers pasio Deddf 1982, rydym yn credu ei bod yn synhwyrol gweithredu fel hyn.
- 1.101 Er mwyn diweddarau'r ddeddfwriaeth, rydym yn cynnig am y tro y dylid canolbwyntio ar y gallu i gael gaffael yn rhwydd ar yr offer neu gyfarpar angenrheidiol, yn hytrach nag a ydynt yn cael eu defnyddio'n gyffredin gan bobl

sy'n gwneud gwaith cynnal ar eu cartrefi. Byddai hyn yn cwmpasu turn, er enghraifft, sy'n erfyn y gellir ei ddefnyddio i drosi arfau tanio.

- 1.102 Ar y llaw arall, os mai dim ond drwy ddefnyddio cyfarpar o safon filwrol nad yw ar gael yn rhwydd ar y farchnad agored y gellid trosi arf tanio ffug, yna ni fyddai'n rhwydd ei drosi.

### **Meddu ar gyfarpar gyda'r bwriad o'i ddefnyddio'n anghyfreithlon i drosi arfau tanio ffug**

- 1.103 Mae rhanddeiliaid wedi dod ag ail fater i'n sylw, sef y ffaith nad yw'r gyfraith yn ei gwneud yn drosedd meddu ar eitemau o gyfarpar gyda'r bwriad o'u defnyddio'n anghyfreithlon i droi arfau tanio ffug yn arfau tanio sy'n gweithio. Mae hyn yn hollol wahanol i feysydd eraill o'r gyfraith. Er enghraifft, mae adran 6 o Ddeddf Twyll 2006 yn ei gwneud yn drosedd meddu ar eitemau i'w defnyddio i dwyllo.<sup>28</sup> Oherwydd hyn, rydym yn cynnig am y tro fod trosedd o'r fath yn cael ei greu. Gan y bydd gofyn i'r erlyniad ddangos bod *bwriad* anghyfreithlon i drosi arfau tanio, ni fyddai'r trosedd damcaniaethol hwn yn gymwys i bawb sy'n meddu ar ddril. Fe fyddai bwriad o'r fath yn cael ei ddangos, er enghraifft, os oedd unigolyn yn meddu ar yr offer angenrheidiol ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut i drosi arfau tanio'n anghyfreithlon.

### **Y DDADL O BLAID DIWYGIO SYLFAENOL**

- 1.104 Cyn dechrau'r ymgynghoriad cwmpasu hwn, roedd Comisiwn y Gyfraith yn ymwybodol, o ganlyniad i'w waith ymchwil cychwynnol gyda rhanddeiliaid, fod yr holl fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli arfau tanio'n ddiffygiol mewn gwahanol ffyrdd. Fodd bynnag, daeth yn gliriach wrth barhau â'r gwaith hwn fod y problemau hyn yn achosi anawsterau ymarferol difrifol.

- 1.105 Gellir priodoli'r anfodlonrwydd mawr ar y gyfraith bresennol a fynegwyd ymysg rhanddeiliaid i bedair prif broblem:

- (1) Mae caffael a defnyddio arfau tanio'n cael eu rheoli gan nifer mawr o ddarpariaethau – 34 o Ddeddfau Seneddol a nifer mawr o orchmynion a darpariaethau deddfwriaethol eraill. Mae'r rhain yn dyddio o 1842 i 2014. Oherwydd hyn, mae'r gyfraith yn anodd cael ati a'i deall. Hefyd, nid yw pob un o'r darpariaethau'n delio â mater penodol. Ceir gorgyffwrdd rhyngddynt sy'n gwneud y gyfraith yn anghydlynol. Mae'r diffyg eglurder hwn yn faich mawr nid yn unig ar yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac awdurdodau ymchwilio, ond hefyd ar y rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig. Mae'n afresymol disgwyl i'r heddlu gymhwyso'r gyfraith yn gywir ym mhob achos gan ei bod mor gymhleth. Mae yr un mor afresymol disgwyl i aelodau o'r cyhoedd wybod eu cyfrifoldebau. Roedd y broblem hon wedi arwain y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref at y casgliad bod y gyfraith yn ei chyflwr presennol yn amharu ar y

<sup>28</sup> Gweler y drafodaeth yn D Ormerod a K Laird, *Smith and Hogan's Criminal Law* (2015), t 1036.

cysylltiadau da rhwng yr heddlu a'r rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig.<sup>29</sup>

- (2) Mae polisïau anghyson yn sail i rai o'r darpariaethau. Oherwydd hyn, nid yw'r gwahanol ddarpariaethau mewn deddfwriaeth yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd ym mhob achos a gallant fod yn anghyson â'i gilydd hyd yn oed. Er enghraifft, mae Deddf Ceirw 1991 yn datgan bod rhaid defnyddio bwledi ymledol wrth hela ceirw. Yn rhinwedd Deddf Arfau Tanio (Diwygio) 1997, fodd bynnag, mae bwledi ymledol wedi'u gwahardd. Er mwyn datrys hyn, roedd yn rhaid diwygio Deddf 1997 i ddarparu esemptiadau i sicrhau bod helwyr yn gallu cydymffurfio â Deddf Ceirw 1991. Mae cynifer o esemptiadau wedi'u gwneud fel y gellid dadlau bod gwahardd bwledi ymledol gan bennu yr un pryd fod rhaid eu defnyddio'n gyfreithlon i saethu ceirw'n gosod baich gweinyddol diangen.
- (3) Roedd y brif Ddeddf – Deddf Arfau Tanio 1968 – yn fesur cydgrynhoi ac felly mae'n ymgorffori nifer o'r diffygion a geir mewn deddfwriaeth gynharach. Er enghraifft, mae'r methiant i ddiffinio 'antique' yn dyddio'n ôl i 1903. Mae nifer o dermau allweddol heb eu diffinio erioed, fel 'servant', 'shooting gallery' a hyd yn oed 'rifle'.
- (4) Mae'r gyfraith wedi mynd yn gymhleth heb fod angen hynny. Er bod rhywfaint o gymhlethdod i'w ddisgwyl, o ystyried beth yw'r testun, mae'n anodd deall, er enghraifft, pam yr oedd angen ehangu adran 5 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 o 305 i 2,545 o eiriau. Mae'r adran honno bellach yn cyfeirio at amrywiaeth enfawr o eitemau – 'firearms', 'prohibited weapons', 'rocket launchers', 'firearms disguised as a signaling apparatus' etc. Mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y naill law a'r rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig ar y llall yn gorfod ymgodymu â'r termau hyn. Ac i wneud pethau'n fwy cymhleth byth, nid yw'r un o'r termau hyn wedi'i ddiffinio. O dan y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd, gellir dosbarthu un eitem mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn niweidiol iawn o gofio bod y cosbau a'r amddiffyniadau y gellir eu pledio'n dibynnu ar y dosbarth y mae'r arf tanio'n perthyn iddo.

1.106 Mae tair ffordd ar gael i ddiwygio'r gyfraith yn fwy sylfaenol i ddatrys y problemau hyn:

- (1) Cydgrynhoi.
- (2) Codeiddio (heb gynnwys trwyddedu)
- (3) Codeiddio (gan gynnwys trwyddedu)

### **Cydgrynhoi**

1.107 Y nod wrth gydgrynhoi fyddai sicrhau bod y gyfraith mewn un lle. Byddai hyn yn gwneud y gyfraith yn haws cael ati. Fodd bynnag, ni fyddai'n rhoi cyfle i gywiro diffygion yn y gyfraith. Mesur cydgrynhoi oedd Deddf Arfau Tanio 1968 ac mae tystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid yn awgrymu nad yw ei darpariaethau wedi

<sup>29</sup> Home Affairs Select Committee Report on Firearms Control (2010), pennod 2, paragraff 36.

sefyll prawf amser. Er enghraifft, mae'r esemptiad ar gyfer arfau tanio hynafol yn dyddio o 1903. Ni fyddai cydgrynhoi'r gyfraith yn broses syml, fodd bynnag. Byddai'n waith hir a chymhleth. Oherwydd hynny, rydym yn credu y byddai'n well diwygio'r gyfraith yn fwy sylfaenol.

### Codeiddio

1.108 Un ffordd o gywiro diffygion yn y gyfraith yw codeiddio. Yn gyffredinol, y nodau wrth godeiddio yw:

- (1) **Hygyrchedd** – sicrhau nad yw'r gyfraith wedi'i gwasgaru rhwng nifer mawr o eitemau o ddeddfwriaeth a'i bod wedi'i drafftio i sicrhau'r lleiaf posibl o amwysedd. Byddai hyn yn rhoi llai o le i ddehongli'r gyfraith gan farnwyr.
- (2) **Eglurder** – sicrhau bod y gyfraith mor ddealladwy â phosibl a bod modd i ddinasyddion cyffredin ei deall.
- (3) **Cysondeb** – am fod y gyfraith wedi'i datblygu ar hap mewn nifer mawr o statudau, ceir anghysondeb o ran termau a sylwedd. Y nod wrth godeiddio yw dileu'r anghysonderau hyn.
- (4) **Sicrwydd** – sicrhau bod gwaharddiadau'r gyfraith yn glir fel bod y dinesydd yn cael rhybudd teg ynghylch pa bryd y mae mewn perygl o gyflawni trosedd. Nid oes modd cyflawni hyn drwy gydgrynhoi gan na fyddai ond yn ailadrodd y diffygion yn y gyfraith bresennol.

1.109 Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu nad yw'r nodweddion hyn i'w cael yn y gyfraith sy'n rheoli caffael a meddu ar arfau tanio. Rydym yn credu bod codeiddio'n rhoi cyfle i sicrhau bod y gyfraith yn ymgorffori'r egwyddorion pwysig hyn. Byddai hyn yn galluogi'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i gymhwyso'r gyfraith yn hyderus a bydd y rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig yn deall yn glir beth yw eu sefyllfa a'u rhwymedigaethau o dan y gyfraith.

1.110 Rydym yn credu y byddai codeiddio cyfraith arfau tanio'n rhoi'r manteision canlynol:

- (1) **Gwella diogelwch cyhoeddus** – dileu'r amwysedd a chau'r bylchau sy'n cael eu camddefnyddio ac sydd felly'n creu perygl i'r cyhoedd. Drwy edrych ar y darlun cyfan, gallwn sicrhau'r warchodaeth orau posibl ym mhob rhan o'r gyfraith.
- (2) **Moderneiddio** – sicrhau bod y gyfraith yn addas i'w diben yn yr 21 ganrif a'i bod yn cymryd datblygiadau technolegol i ystyriaeth. Y rheswm am hyn yw nad yw'r Deddfau'n ystyried datblygiadau diweddar a chyfleoedd i gynhyrchu arfau tanio. Byddai codeiddio'n sicrhau bod y gyfraith yn hyblyg a bod modd ei diwygio'n rhwydd i gymryd y datblygiadau diweddar hyn i ystyriaeth.
- (3) **Eglurder** – gwneud y gyfraith yn glir. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cymhwyso'r gyfraith yn gyson ac y bydd y rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig yn gallu gwybod sut i gydymffurfio â hi, gan wella

cysylltiadau rhwng yr heddlu a'r rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig.

- (4) **Cost** – symleiddio'r gyfraith drwy ddileu pwyntiau technegol, fel y bydd llai o gostau wrth orfodi'r gyfraith. Byddai codeiddio'n lleihau'r angen i'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ddibyynu ar dystiolaeth arbenigol ddrud.

- 1.111 Mae codeiddio'n rhoi cyfle nid yn unig i leihau nifer y ffynonellau ond hefyd i gywiro'r diffygion hynny sy'n tanseilio effeithiolrwydd y gyfraith ac yn arwain at dyndra rhwng yr heddlu ac unigolion sy'n ymwneud ag arfau tanio trwyddedig.

### **Beth fyddai ffurf y cod arfau tanio?**

- 1.112 Wrth godeiddio, gellid cynnwys trwyddedu neu adael y system drwyddedu ar wahân. Bydd yn fuddiol edrych ar y ffordd y mae awdurdodaethau eraill wedi mynd ati i godeiddio eu cyfraith arfau tanio. Er mwyn bod yn glir, nid ydym yn awgrymu mabwysiadu cyfraith yr awdurdodaethau eraill hyn yn ei cyfanrwydd. Yn hytrach, rydym yn eu defnyddio fel enghreifftiau o'r ffordd y gellid trefnu'r gyfraith.
- 1.113 Yng Nghanada mae'r gyfraith ar arfau tanio yn Rhan III o'r Cod Troseddol. Mae'r Cod yn egluro ystyr y termau allweddol a hefyd yn rhestru'r gwahanol droseddau sy'n gymwys i arfau tanio yn eu trefn. Yn ogystal â hyn, mae'r Cod yng Nghanada yn cynnwys ffordd symlach o gatedoreiddio arfau tanio na'r un a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r Cod Troseddol yn ymdrin â thrwyddedu arfau tanio. Ceir y rheoliadau perthnasol yn Neddf Arfau Tanio 1995. O ganlyniad i godeiddio, mae cyfraith Canada yn fwy hygyrch a rhesymegol na'n cyfraith ni.
- 1.114 Yn Awstralia mae rheoleiddio arfau tanio'n fater i'r taleithiau a'r tiriogaethau'n bennaf yn hytrach na'r llywodraeth Ffederal. A bod yn fanwl, nid yw'r gyfraith yn Awstralia wedi cael ei chodeiddio. Er hynny, mae rhai o nodweddion codeiddio'n perthyn iddi. Er enghraifft, dim ond 93 o adrannau a geir yn Neddf Arfau Tanio (De Cymru Newydd) 1996. Mae hyn yn gwbl wahanol i'n cyfraith ni. Ar ddechrau'r ddeddfwriaeth, nodir ei hegwyddorion a'i hamcanion. Mae'r darpariaethau sy'n dilyn wedi'u drafftio fel eu bod cyflawni'r egwyddorion ac amcanion hyn. Mae hyn yn gwneud y ddeddfwriaeth yn gydlynol ac yn cynnig dull o ddehongli darpariaethau amwys. Mae deddf De Cymru Newydd yn gynhwysfawr, i'r graddau ei bod yn cynnwys trwyddedu. Mae termau allweddol wedi'u diffinio, fel 'air gun'. Mewn cyferbyniad â hyn, mae Deddf Arfau Tanio 1968 yn defnyddio'r termau 'air weapon', 'air pistol' ac 'air rifle' heb eu diffinio.
- 1.115 I gloi, rydym yn cynnig am y tro fod y gyfraith sy'n rheoli meddu a chaffael arfau tanio'n cael ei chodeiddio. Byddai hyn yn rhoi cyfle i gywiro'r diffygion hynny sy'n tanseilio effeithiolrwydd y gyfraith, gan ei gwneud yn fwy eglur a hygyrch hefyd. Rydym yn gofyn i ymgylgoreion am unrhyw enghreifftiau sydd ganddynt o gostau diangen y gellir eu priodoli i'r diffygion yn y gyfraith bresennol.

### **MATERION I'W HYSTYRIED WRTH GODEIDDIO**

- 1.116 Yn ystod ein trafodaethau rhagarweiniol anffurfiol â rhanddeiliaid, roeddent wedi codi nifer o faterion gyda ni sy'n broblemau ynglŷn â'r gyfraith bresennol yn eu barn nhw. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r rhain wedi bod mor ddifrifol â'r problemau a ddadansoddwyd yn yr adrannau uchod. Cafwyd mwy o gonsensws

bod y problemau hynny'n achosi problemau ymarferol sylweddol a thystiolaeth hefyd sy'n awgrymu eu bod yn tanseilio diogelwch cyhoeddus.

1.117 A siarad yn gyffredinol, gellir rhannu'r problemau ychwanegol yr oedd rhanddeiliaid wedi'u codi gyda ni i dri dosbarth. Byddwn yn rhoi enghreifftiau yn yr adran hon o bob un o'r rhain:

- (1) Methiannau o ran diffinio yn y gyfraith.
- (2) Anawsterau wrth addasu'r gyfraith i wynebu bygythiadau troseddol newydd.
- (3) Methiannau yn y gyfraith i gadw'n wastad â newidiadau mewn cymdeithas.

### **Methiannau o ran diffinio**

1.118 Mae nifer mawr o dermau yn y ddeddfwriaeth sydd heb eu diffinio. Mae detholiad bach ohonynt isod:

- (1) 'Rifle' – mae adran 11(4), er enghraifft, yn cyfeirio at 'miniature rifles', ond nid yw'n diffinio'r term hwnnw. Beth yw'r gwahaniaeth, er enghraifft, rhwng 'miniature rifle' a 'long barrelled pistol'?
- (2) 'Shooting gallery' – nid yw adran 11(4) yn diffinio'r term hwn er ei fod yn hanfodol gan fod y ddeddfwriaeth yn esemptio gweithredwyr stondinau saethu rhag unrhyw fath o ardystio.
- (3) 'Servant' – mae adran 8(1) yn cyfeirio at 'servant' i ddeliwr arfau tanio cofrestredig, heb bennu ystyr y term hwnnw. Mae person o'r fath yn gallu caffael arf tanio heb dystysgrif, os yw'r caffael hwnnw'n digwydd yn ystod y busnes hwnnw.
- (4) Arfau tanio sy'n gallu saethu ergydion olynol – mae adran 5(1)(a) yn gwahardd arfau tanio awtomatig, ond cafwyd bod y geiriau a ddefnyddiwyd i fynegi'r cysyniad hwn yn broblemus.
- (5) 'Disguised' – mae adran 5(1)(A)(a) yn gymwys i arf tanio sydd wedi'i newid fel ei fod yn ymdebygu i wrthrych arall, ond nid yw'n pennu sut i benderfynu a yw gwedd arf tanio wedi'i newid yn y modd hwnnw.

1.119 Er nad yw'r methiant i ddiffinio'r termau hyn mor broblemus ag yn achos y rheini a drafodwyd yn gynharach, mae eu diffinio'n dasg a fyddai'n addas iawn i ymarfer codeiddio. Nid yw'r gyfraith yn y maes hwn yn gweithio cystal ag y gallai ac mae'n bosibl y bydd yn llesteirio bwriad y Senedd mewn cysylltiad, er enghraifft, â gosod dedfrydau mwy ar gyfer y rheini y ceir arfau tanio wedi'u gweddnewid yn eu meddiant yn hytrach na rhai sydd heb eu gweddnewid. Mae'r cwestiynau cymhleth hyn yn awgrymu bod angen ailystyried y fframwaith cyfreithiol cyfan yn ofalus.

### **Anawsterau wrth addasu'r ddeddfwriaeth i wynebu bygythiadau troseddol newydd**

- 1.120 Mae'r mater o warchodwyr arfog ar longau sy'n hedfan baner y DU yn enghraifft o sefyllfa lle mae'r ddeddfwriaeth wedi methu â chadw'n wastad â bygythiadau newydd. Oherwydd y bygythiad cynyddol oddi wrth fôr-ladron i longau sy'n hwylio o gwmpas yr Horn, roedd Llywodraeth y DU wedi cydnabod ei bod yn gyfreithlon cyflogi personél arfog ar fwrdd llongau sydd wedi'u cofrestru yn y DU fel modd cyfreithlon i ddiogelu bywyd. O ganlyniad i hyn, mae'r diwydiant diogelwch morol preifat wedi ffynnu.
- 1.121 Y broblem yw nad oedd yn hawdd addasu'r gyfraith bresennol i wynebu'r bygythiad troseddol newydd hwn. O ganlyniad i hyn, mae'r system sy'n rheoleiddio gwarchodwyr arfog ar longau yn gymhleth ac ymhell o fod yn ddelfrydol. Er bod rhywfaint o gymhlethdod yn anorfod, oherwydd natur y broblem, nid yw hynny'n gyfystyr â dweud na ellir gwella'r gyfraith i roi ateb pwrpasol wrth wynebu'r bygythiad newydd hwn.

### **Methiant yn y ddeddfwriaeth i gadw'n wastad â newidiadau mewn cymdeithas**

- 1.122 Mae arfau tanio'n cael eu defnyddio'n aml ar y teledu ac mewn ffilmiau. Er mwyn rhoi'r gallu i hyn ddigwydd, mae angen cael esemptiad arbennig rhag y rheolau arferol. Fe geir esemptiad o'r fath ar hyn o bryd yn adran 12 o Ddeddf Arfau Tanio 1968. Roedd hwn yn deillio o Ddeddf Arfau Tanio (Diwygio) 1936.
- 1.123 Y broblem yw nad yw'r gyfraith yn ddigon eang, o bosibl, i gwmpasu'r holl senarios lle y gallai fod angen manteisio ar yr esemptiad. Er enghraifft, mae adran 12(1) yn datgan bod yr esemptiad arbennig yn gymwys i 'theatrical productions,' 'rehearsals thereof', a 'cinematograph films'. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn datgan, er enghraifft, ei fod yn gymwys i gynyrchiadau teledu. Gellir priodoli cwmpas bach yr esemptiad i'r ffaith bod y ddarpariaeth wedi'i drafftio ym 1936. Felly byddai'n ddymunol ei diweddarau a dileu'r cyfeiriad hen ffasiwn at 'cinematograph films'.

### **Ildio**

- 1.124 Ildio yw'r broses lle mae unigolion yn rhoi arf tanio i'r heddlu. Os yw'r unigolyn yn meddu ar yr arf tanio hwnnw'n anghyfreithlon, ni fydd yn cael ei erlyn. Fodd bynnag, os yw'n dod yn hysbys bod yr arf tanio wedi'i ddefnyddio i gyflawni trosedd, bydd y broses ymchwilio arferol yn digwydd. Mae'n amlwg bod ildio arfau tanio'n beth dymunol, gan ei fod yn lleihau nifer yr arfau tanio sy'n cylchredeg y tu allan i'r system reoleiddio.
- 1.125 Mae rhanddeiliaid yn awgrymu ei bod yn bosibl bod amharodrwydd ar ran unigolion i ildio arfau tanio i'r heddlu, ac felly y gallai fod yn well gan unigolyn drosglwyddo arf tanio i Ddeliwr Arfau Tanio Cofrestredig. Mae adran 40 o Ddeddf Arfau Tanio 1968 yn gosod rhwymedigaeth ar Ddelwyr Arfau Tanio Cofrestredig i gadw cofrestr o'u holl drafodion arfau tanio. Mae hyn yn cynnwys gwirio hunaniaeth pawb y mae'r deliwr yn cynnal trafodion â nhw. Fodd bynnag, y broblem yw y gallai'r gyfraith bresennol gymell unigolion i beidio ag ildio arf tanio. Yn ein barn ni, mae'r cwestiwn o ba un a ddylid cael darpariaeth arbennig yn ymwneud ag ildio'n rhywbeth a ddylai gael ei drafod yng nghyd-destun adolygiad ehangach o'r gyfraith.



### **Rhoi drylliau ar fenthyg o dan adran 11(5) o Ddeddf Arfau Tanio 1968**

- 1.126 Os yw rhywun yn dymuno dechrau ymhel â saethu, rhaid iddo ddangos i'r heddlu'n gyntaf ei fod yn gallu trafod gwn yn ddiogel cyn cael ei dystysgrif ei hun (neu o leiaf, cyn cael tystysgrif sydd heb amodau ar gyfer ei oruchwyllo). Mae gwahanol esemptiadau yn y system ddeddfwriaethol sy'n caniatáu i bobl ennill profiad wrth drafod arfau tanio cyn gwneud cais am dystysgrif, ac mae un o'r rhain (adran 11(5)) yn caniatáu cymryd drylliau ar fenthyg o dan oruchwylloeth ar dir preifat. Mae'r esemptiad yn helpu pobl i ddechrau ymhel yn gyfreithlon â saethu. Fodd bynnag, mae nifer o bwyntiau amwys yn y gyfraith.
- 1.127 Yn fyr, mae'r rhain yn cynnwys ansicrwydd ynghylch faint o oruchwylloeth sy'n ofynnol, gwahaniaethu afresymegol rhwng perchenogion ar wahanol fathau o hawliau ar dir, ac anghysondeb a allai fod yn amhosibl ei gyfiawnhau â'r rheolau sy'n ymwneud â chymryd reiffiau ar fenthyg.
- 1.128 Mae nifer o randdeiliaid wedi rhoi gwybod i ni fod adran 11(5) yn peri problemau ymarferol mawr i'r rheini sy'n ymddiddori mewn saethu. Y rheswm am hyn yw ei bod yn cyfyngu mewn modd anghyson ar y benthyca cyfyngedig hwn ar ddrylliau dros gyfnod byr iawn gan beri bod rhai sy'n newydd i saethu weithiau'n gorfod codi tystysgrif dryll yn eu henw eu hunain. Mae hyn yn achosi anhawster hefyd i unigolion sy'n dod o wledydd tramor i saethu.
- 1.129 Gellid dadlau bod y gwahaniaethau sy'n cael eu tynnu yn adran 11(5) yn afresymegol o ran yr amgylchiadau lle maent yn caniatáu benthyca dryll o dan reolaeth, ac nad stopio pobl rhag saethu yw'r canlyniad: yn hytrach, mae'n ei gwneud yn ofynnol i saethwyr newydd gael eu tystysgrif dryll eu hunain. Gellid credu bod hyn yn amhriodol oherwydd y cyfrifoldebau penodol y mae'n eu rhoi i rywun sy'n gwbl ddibrofiad ac anghymwys, ac mae'n sicr yn gosod baich gweinyddol ac ariannol gormodol ar yr heddlu a'r unigolion fel ei gilydd.

### **CASGLIAD**

- 1.130 Mae'r materion a godwyd yn y bennod hon yn amrywiol iawn, ond yr hyn sy'n gyffredin iddynt yw bod modd eu priodoli i ddeddfwriaeth hen ffasiwn sy'n amwys ac yn anghydlynol. Oherwydd hyn, rydym yn gofyn i ymgylgoreion a ydynt yn cytuno bod y materion hyn yn addas i'w datrys drwy godeiddio'r gyfraith. Rydym hefyd yn gofyn i ymgylgoreion a oes unrhyw faterion ychwanegol ganddynt y gellid eu datrys drwy godeiddio.